OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 666

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

## RHAN 6

Cynhyrchion y Bwriedir eu Mewnforio

**Trawslwytho cynhyrchion y bwriedir eu mewnforio**

**38.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gynhyrchion a drawslwythwyd pan fo'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno wedi'i leoli yng Nghymru.

(2) Cyn gynted ag y bo cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cyrraedd y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch hysbysu'r milfeddyg swyddogol yno yn ysgrifenedig, neu ar ffurf gyfrifiadurol neu ffurf electronig arall, o union leoliad y cynnyrch, o'r amser yr amcangyfrifir y byddai'n cael ei drawslwytho neu ei ddadlwytho, ac o'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyrchfan.

(3) Pan fo cynnyrch, yn ôl yr hysbysiad a roddwyd yn unol â pharagraff (2) i'w drawslwytho, a hwnnw'n gynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo—

(a) o un awyren i un arall, naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl iddo gael ei ddadlwytho mewn man o dan reolaeth y dollfa wrth y safle arolygu ar y ffin at gyfer cyflwyno am lai na deuddeng awr, neu

(b) o un long fordwyol i un arall, naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl ei ddadlwytho mewn man fel yr un a enwyd uchod am lai na saith niwrnod,

os yw'r milfeddyg swyddogol o'r farn bod y cynnyrch yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, rhaid i unrhyw berson y mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi'r cynnyrch a'i ddogfennau gofynnol i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno, neu sicrhau eu bod yn cael eu rhoi iddo, ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol, neu i gynorthwyydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), gyflawni gwiriad dogfennol ar y dogfennau gofynnol.

(4) Pan fwriedir dadlwytho cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo o awyren am ddeuddeng awr neu fwy, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch sicrhau ei fod yn cael ei storio am gyfnod nad yw'n hwy na 48 awr o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol yn y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno mewn lle yno sydd o dan reolaeth y dollfa a'i fod wedyn yn cael ei ail-lwytho ar awyren i'w gludo ymlaen i'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyrchfan.

(5) Pan fwriedir dadlwytho cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo o long fordwyol am saith niwrnod neu fwy, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch sicrhau ei fod yn cael ei storio am gyfnod nad yw'n hwy nag ugain niwrnod o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol yn y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno mewn lle yno sydd o dan reolaeth y dollfa a'i fod wedyn yn cael ei ail-lwytho ar long fordwyol i'w gludo ymlaen i'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyrchfan.

(6) Rhaid i unrhyw berson y mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno cynnyrch, y mae paragraff (4) neu baragraff (5) yn gymwys iddo, ynghyd â'i ddogfennau gofynnol, i'r milfeddyg

swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol yno, neu gynorthwyydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), gyflawni gwiriad dogfennol ar y dogfennau gofynnol ac, os yw'r milfeddyg swyddogol o'r farn bod y cynnyrch yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd, gwiriad adnabod ar y cynnyrch hwnnw yn erbyn y dogfennau gofynnol a gwiriad ffisegol o'r cynnyrch.

(7) Pan fydd cynnyrch y mae paragraff (4) yn gymwys iddo yn cael ei storio am fwy na 48 awr ar ôl ei ddadlwytho, neu os yw cynnyrch y mae paragraff (5) yn gymwys iddo yn cael ei storio am fwy nag ugain niwrnod ar ôl ei ddadlwytho, rhaid i unrhyw berson y mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi'r cynnyrch a'i ddogfennau gofynnol i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno, ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol yno, neu gynorthwyydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), gyflawni, ym mhob achos, wiriad adnabod o'r cynnyrch yn erbyn y dogfennau gofynnol a gwiriad ffisegol o'r cynnyrch.